Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 02920 446 446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 28/07/2020 |
| **Pwnc / Subject:** | Cynigion deddfwriaethol ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| |
|---|
| **Cyflwyniad**<br><br>Mae Estyn yn croesawu'r cyfle i roi sylwadau ar y cynigion deddfwriaethol ynghylch crefydd, gwerthoedd a moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru. Rydym wedi ymateb i'r holl gwestiynau yn yr ymgynghoriad ac wedi codi rhai pwyntiau i'w hystyried ymhellach.<br><br>Ar y cyfan, cytunwn y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol, gan sicrhau bod crefydd, gwerthoedd a moeseg yn eang, cytbwys a diduedd ei natur.<br>• Cytunwn â'r angen am ganllawiau statudol i gynorthwyo â chyflwyno crefydd, gwerthoedd a moeseg. Byddai angen i le'r ddogfen hon o fewn strwythur y Cwricwlwm i Gymru fod yn glir.<br>• Yn sgil yr hyblygrwydd y mae'r Cwricwlwm i Gymru'n ei gynnig a chefnogaeth canllawiau statudol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg, nid ydym o'r farn bod angen maes llafur cytunedig lleol. Mae hyn yn ychwanegu lefel ychwanegol ddiangen o arweiniad i ysgolion.<br>• Byddem yn ffafrio system sy'n amddiffyn uniondeb crefydd, gwerthoedd a moeseg fel addysg orfodol blwraliaethol, briodol sydd o werth i bob disgybl, ni waeth beth yw safbwyntiau crefyddol neu athronyddol ei rieni. Mae rhai ysgolion yn darparu addysg grefyddol enwadol, a byddai'n well gennym pe deellid bod hynny'n atodol i'r ddarpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol. Yn yr ysgolion hyn, byddai gan rieni'r hawl i dynnu'u plentyn o'r agwedd atodol hon ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, fel bod y plentyn yn cael addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol yn unig.<br>• Nid ydym yn cefnogi rhoi'r hawl i riant ofyn am grefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol os nad yw'r ysgol yn ei ddarparu fel arfer, oherwydd byddai darparu hyn yn dwyn problemau ymarferol sylweddol a goblygiadau sylweddol o ran adnoddau. Gallai canlyniadau'r ymgynghoriad hwn arwain at ailystyried yr angen am feysydd llafur cytunedig lleol ac addasu rôl CYSAG i gynorthwyo ag addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg, a'i monitro. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – A ydych yn cytuno y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol (yn unol â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol) fel y'u disgrifir yn y ddogfen ymgynghori?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| Mae Estyn yn cytuno y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg gwmpasu credoau crefyddol ac anghrefyddol fel y'u disgrifir yn y ddogfen ymgynghori. Dyma'r achos eisoes mewn llawer o |

| |
|---|
| ysgolion, fel y dywedwyd yn adroddiad cylch gwaith Estyn, Addysg grefyddol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (Mehefin 2018). '*Mewn llawer o ysgolion, mae disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn dda trwy ymdrin ag ystod eang o gwestiynau dynol a chrefyddol sylfaenol sy'n canolbwyntio ar y chwiliad am ystyr, arwyddocâd a gwerth mewn bywyd. Maent yn trafod cwestiynau pwysig gyda diddordeb a brwdfrydedd.'*<br>*Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn trafod ac yn cyfrannu at gwestiynau athronyddol trwy astudio 'cwestiynau mawr'. Mae'r cwestiynau hyn yn cynnwys 'A yw dwyn bob amser yn anghywir?', 'A yw pawb yn gallu bod yn arwr?' ac 'A yw hi'n iawn i bobl fod yn fwy cyfoethog na phobl eraill?', er enghraifft. Trwy'r gwaith hwn, mae disgyblion o bob oedran yn datblygu dealltwriaeth gadarn o sut i ymateb i'r cwestiynau sylfaenol hyn a godwyd yn sgil eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas a chredoau crefyddol.*<br>*Yn y rhan fwyaf o ysgolion yng nghyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn ymdrin yn dda â chwestiynau sylfaenol. Er enghraifft, maent yn trafod cwestiynau mawr fel 'Creu neu esblygu?' a 'Beth yw diben bywyd?', gan ddefnyddio eu gwybodaeth am wahanol ffydd a'u safbwyntiau personol yn aeddfed. Mae llawer o ddisgyblion yn cynnig rhesymau ystyrlon am eu barn ac yn gwrando ar safbwyntiau pobl eraill yn barchus. Mewn llawer o ysgolion, mae gwersi addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus yng Nghymru a'r byd.* |

**Cwestiwn 2** – A ydych yn cytuno y dylai cynadleddau meysydd llafur cytunedig **ystyried** canllawiau statudol wrth ddatblygu eu maes llafur cytunedig lleol?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| Byddai'n ddefnyddiol pe bai ysgolion yn cael canllawiau statudol yn gysylltiedig ag addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg. Byddai'r ddogfen hon yn cynorthwyo athrawon ac arweinwyr wrth iddynt gynllunio i gyflwyno crefydd, gwerthoedd a moeseg ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau. Hefyd, gallai'r canllawiau gynorthwyo ysgolion â'u dealltwriaeth o'r sail resymegol dros y newid i enw'r ddisgyblaeth hon. Byddai angen i'r berthynas rhwng unrhyw ganllawiau statudol a'r Cwricwlwm i Gymru fod yn glir.<br>Credwn y dylai crefydd, gwerthoedd a moeseg gael ei drin yn yr un modd â disgyblaethau eraill ym maes dysgu a phrofiad y dyniaethau. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn gweld bod angen i ysgolion gael haenau ychwanegol o ganllawiau ar ffurf meysydd llafur cytunedig lleol. Credwn fod y Cwricwlwm i Gymru yn rhoi digon o hyblygrwydd a chanllawiau i ysgolion ddylunio'u cwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg eu hunain.<br>Mae cael y Cwricwlwm i Gymru, canllawiau statudol a maes llafur cytunedig lleol yn debygol o fod yn ddryslyd i ysgolion. Bydd ysgolion yn gyfrifol am bennu'u cwricwlwm eu hunain ac |

ni fyddant yn rhwym i gyflwyno maes llafur cytunedig, lleol, fel ar hyn o bryd. Felly, mae'n anodd gweld gwerth parhau â dull o'r fath, a fydd yn cymryd amser ac adnoddau y gellid eu buddsoddi'n fwy defnyddiol rywle arall.

Gallai Llywodraeth Cymru ystyried ei bod hi'n amserol adolygu lle a phwrpas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAGau). Mae gwreiddiau CYSAGau, a'u cyfrifoldeb am gynhyrchu maes llafur cytunedig, yn Neddf Addysg 1944. Dim ond dyrnaid o CYSAGau a sefydlwyd o dan Ddeddf 1944, ond newidiodd hynny yn sgil Deddf Diwygio Addysg 1988, a wnaeth y Cynghorau hyn yn ofyniad statudol. Ymddengys nad oes fawr o gyfiawnhad dros greu 22 maes llafur cytunedig lleol pan fydd hi'n ofynnol i ysgolion gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru ac ystyried y canllawiau statudol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg.

Pe na bai angen i CYSAGau gynhyrchu maes llafur cytunedig lleol, efallai y gellid addasu eu diben fel eu bod yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio a gweithredu crefydd, gwerthoedd a moeseg, a monitro darpariaeth yr ysgol yn y maes hwn o'r cwricwlwm.

**Cwestiwn 3 –** A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i ysgolion cymunedol a sefydledig ac ysgolion gwirfoddol **heb nodweddion crefyddol** ystyried maes llafur cytunedig wrth ddylunio crefydd, gwerthoedd a moeseg a'i roi ar waith?

| **Cytuno** | ☐ | **Anghytuno** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Teimlwn y byddai'n fwy priodol pe bai rhyddid gan ysgolion i lunio'u cwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg eu hunain gan ddefnyddio'r Cwricwlwm i Gymru, heb fod angen ystyried maes llafur cytunedig lleol. Teimlwn y byddai'n fwy defnyddiol pe bai'r amser a'r adnoddau a ddefnyddir ar hyn o bryd i gynhyrchu'r maes llafur cytunedig lleol yn cael eu defnyddio i gynorthwyo ysgolion â llunio'u cwricwlwm crefydd, gwerthoedd a moeseg.

**Cwestiwn 4** – A ydych yn cytuno â'n cynnig na chaiff rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion **heb nodweddion crefyddol** ofyn i ysgol addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol mwyach?

| **Cytuno** | ✓ | **Anghytuno** | ☐ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Ar hyn o bryd, mae gan Gymru ysgolion heb nodweddion crefyddol sy’n addysgu Addysg Grefyddol nad yw’n enwadol, ac ysgolion sydd â nodweddion crefyddol sy’n addysgu addysg grefyddol enwadol. Mae’r opsiynau ar gyfer yr ail fath, yn y sector a gynhelir, yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru neu’r Eglwys Gatholig ar hyn o bryd.

Yn ddamcaniaethol, mae rhiant yn mynegi’i ddymuniad am fath penodol o addysg grefyddol trwy ei ddewis o ysgol. Ar y sail honno, ni ddylai fod angen i riant gael hawl i ofyn am addysg grefyddol arall i’w blentyn mewn unrhyw ysgol.

Fodd bynnag, mae sawl rheswm pam nad yw hyn yn syml.

Yn gyntaf, mae prosesau derbyn sy’n golygu na ellir rhoi sicrwydd i riant o le yn yr ysgol o’i ddewis ar gyfer ei blentyn.

Yn ail, mewn sawl rhan o Gymru, gall yr ysgol agosaf o’r enwad o’i ddewis, neu ysgol heb nodweddion crefyddol, fod yn rhy bell i ffwrdd i fod yn opsiwn realistig. Er enghraifft, mae darpariaeth cyfnod uwchradd yr Eglwys yng Nghymru ar gael mewn pedwar awdurdod lleol yn unig ac mae darpariaeth Gatholig ar gael mewn deuddeg awdurdod lleol yn unig.

Yn drydydd, mae’r holl ysgolion yng Nghymru â darpariaeth uwchradd sy’n addysgu addysg grefyddol enwadol yn rhai cyfrwng Saesneg, felly mae’n amhosibl dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod uwchradd sy’n addysgu addysg grefyddol enwadol.

Gallai Llywodraeth Cymru ystyried bod argaeledd presennol y mathau o ysgolion yn anghyfartal ac, felly, p’un a ddylai rhieni gael hawl i wneud cais am fath penodol o grefydd, gwerthoedd a moeseg, ai peidio. Er yr ymddengys y byddai’r anghydraddoldeb hwn yn rhoi achos cryf dros roi hawl o’r fath i rieni, mae gwrthddadl gref, sef na fyddai’n ymarferol i ysgolion fod yn trefnu darpariaethau crefydd, gwerthoedd a moeseg gwahanol i ddisgyblion gwahanol oherwydd yr adnoddau ychwanegol sylweddol y byddai hyn yn galw amdanynt.

At ei gilydd, byddem yn ffafrio system sy’n amddiffyn uniondeb crefydd, gwerthoedd a moeseg fel addysg orfodol blwraliaethol, briodol sydd o werth i bob disgybl, ni waeth beth yw safbwyntiau crefyddol neu athronyddol ei rieni.

Mae’r system yng Nghymru yn golygu bod rhai ysgolion yn darparu addysg grefyddol enwadol, a byddai’n well gennym pe deellid bod hyn yn atodol i’r ddarpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol. Yn yr ysgolion hyn, dylai rhieni gael yr hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o’r agwedd atodol hon ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, fel bod y plant yn cael addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol yn unig.

Er gwaethaf y materion anghyfartal, credwn fod yr ystyriaethau ymarferol yn golygu ein bod yn cefnogi’r cynnig na chaiff rhieni/gofalwyr dysgwyr mewn ysgolion heb nodweddion

| |
|---|
| crefyddol wneud cais mwyach am ddarparu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol. |

**Cwestiwn 5 –** A ydych yn cytuno â'r cynnig y dylai ysgolion gwirfoddol a reolir **â nodweddion crefyddol** allu addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â gweithredoedd ymddiriedolaeth neu ddaliadau ffydd yr ysgol **os bydd rhieni/gofalwyr yn gofyn iddynt wneud hynny?**

| **Cytuno** | ☐ | | **Anghytuno** | ✓ | **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

Ar hyn o bryd, mae gan Gymru ysgolion heb nodweddion crefyddol sy’n addysgu Addysg Grefyddol nad yw’n enwadol, ac ysgolion sydd â nodweddion crefyddol sy’n addysgu addysg grefyddol enwadol. Mae’r opsiynau ar gyfer yr ail fath, yn y sector a gynhelir, yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru neu’r Eglwys Gatholig ar hyn o bryd.

Yn ddamcaniaethol, mae rhiant yn mynegi’i ddymuniad am fath penodol o addysg grefyddol trwy ei ddewis o ysgol. Ar y sail honno, ni ddylai fod angen i riant gael hawl i ofyn am addysg grefyddol arall i’w blentyn mewn unrhyw ysgol.

Fodd bynnag, mae sawl rheswm pam nad yw hyn yn syml.

Yn gyntaf, mae prosesau derbyn sy’n golygu na ellir rhoi sicrwydd i riant o le yn yr ysgol o’i ddewis ar gyfer ei blentyn.

Yn ail, mewn sawl rhan o Gymru, gall yr ysgol agosaf o’r enwad o’i ddewis, neu ysgol heb nodweddion crefyddol, fod yn rhy bell i ffwrdd i fod yn opsiwn realistig. Er enghraifft, mae darpariaeth cyfnod uwchradd yr Eglwys yng Nghymru ar gael mewn pedwar awdurdod lleol yn unig ac mae darpariaeth Gatholig ar gael mewn deuddeg awdurdod lleol yn unig.

Yn drydydd, mae’r holl ysgolion yng Nghymru â darpariaeth uwchradd sy’n addysgu addysg grefyddol enwadol yn rhai cyfrwng Saesneg, felly mae’n amhosibl dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod uwchradd sy’n addysgu addysg grefyddol enwadol.

Gallai Llywodraeth Cymru ystyried bod argaeledd presennol y mathau o ysgolion yn anghyfartal ac, felly, p’un a ddylai rhieni gael hawl i wneud cais am fath penodol o grefydd, gwerthoedd a moeseg, ai peidio. Er yr ymddengys y byddai’r anghydraddoldeb hwn yn rhoi achos cryf dros roi hawl o’r fath i rieni, mae gwrth-ddadl gref, sef na fyddai’n ymarferol i ysgolion fod yn trefnu darpariaethau crefydd, gwerthoedd a moeseg gwahanol i ddisgyblion gwahanol oherwydd yr adnoddau ychwanegol sylweddol y byddai hyn yn galw amdanynt.

At ei gilydd, byddem yn ffafrio system sy’n amddiffyn uniondeb crefydd, gwerthoedd a moeseg fel addysg orfodol blwraliaethol, briodol sydd o werth i bob disgybl, ni waeth beth yw safbwyntiau crefyddol neu athronyddol ei rieni.

| |
|---|
| Mae'r system yng Nghymru yn golygu bod rhai ysgolion yn darparu addysg grefyddol enwadol, a byddai'n well gennym pe deellid bod hyn yn atodol i'r ddarpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol. Yn yr ysgolion hyn, dylai rhieni gael yr hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o'r agwedd atodol hon ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, fel bod y plant yn cael addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol yn unig.<br><br>Er gwaethaf y materion anghyfartal, credwn fod yr ystyriaethau ymarferol yn golygu nad ydym yn cefnogi'r hawl i riant wneud cais mwyach am ddarparu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol os nad yw'r ysgol yn ei ddarparu fel arfer. |

**Cwestiwn 6** – A ydych yn cytuno y dylai fod yn **ofynnol** i **ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol** addysgu yn unol â'r maes llafur cytunedig **os bydd rhiant/gofalwr yn gofyn iddynt wneud hynny**, ac a ddylai fod ganddynt ddisgresiwn i wrthod cais o'r fath?

| Cytuno | ☐ | Anghytuno | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ✓ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol** (hyd at 250 gair)

| |
|---|
| Ar hyn o bryd, mae gan Gymru ysgolion heb nodweddion crefyddol sy'n addysgu Addysg Grefyddol nad yw'n enwadol, ac ysgolion sydd â nodweddion crefyddol sy'n addysgu addysg grefyddol enwadol. Mae'r opsiynau ar gyfer yr ail fath, yn y sector a gynhelir, yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru neu'r Eglwys Gatholig ar hyn o bryd.<br><br>Yn ddamcaniaethol, mae rhiant yn mynegi'i ddymuniad am fath penodol o addysg grefyddol trwy ei ddewis o ysgol. Ar y sail honno, ni ddylai fod angen i riant gael hawl i ofyn am addysg grefyddol arall i'w blentyn mewn unrhyw ysgol.<br><br>Fodd bynnag, mae sawl rheswm pam nad yw hyn yn syml.<br><br>Yn gyntaf, mae prosesau derbyn sy'n golygu na ellir rhoi sicrwydd i rieni o le yn yr ysgol o'u dewis ar gyfer eu plentyn.<br><br>Yn ail, mewn sawl rhan o Gymru, gall yr ysgol agosaf o'r enwad o'u dewis, neu ysgol heb nodweddion crefyddol, fod yn rhy bell i ffwrdd i fod yn opsiwn realistig. Er enghraifft, mae darpariaeth cyfnod uwchradd yr Eglwys yng Nghymru ar gael mewn pedwar awdurdod lleol yn unig ac mae darpariaeth Gatholig ar gael mewn deuddeg awdurdod lleol yn unig.<br><br>Yn drydydd, mae'r holl ysgolion yng Nghymru â darpariaeth uwchradd sy'n addysgu addysg grefyddol enwadol yn rhai cyfrwng Saesneg, felly mae'n amhosibl dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod uwchradd sy'n addysgu addysg grefyddol enwadol.<br><br>Gallai Llywodraeth Cymru ystyried bod argaeledd presennol y mathau o ysgolion yn anghyfartal ac, felly, p'un a ddylai rhieni gael hawl i wneud cais am fath penodol o grefydd, gwerthoedd a moeseg, ai peidio. Er yr ymddengys y byddai'r anghydraddoldeb hwn yn rhoi achos cryf dros roi hawl o'r fath i rieni, mae gwrth-ddadl gref, sef na fyddai'n ymarferol i |

ysgolion fod yn trefnu darpariaethau crefydd, gwerthoedd a moeseg gwahanol i ddisgyblion gwahanol oherwydd yr adnoddau ychwanegol sylweddol y byddai hyn yn galw amdanynt.

At ei gilydd, byddem yn ffafrio system sy'n amddiffyn uniondeb crefydd, gwerthoedd a moeseg fel addysg orfodol blwraliaethol, briodol sydd o werth i bob disgybl, ni waeth beth yw safbwyntiau crefyddol neu athronyddol ei rieni.

Mae'r system yng Nghymru yn golygu bod rhai ysgolion yn darparu addysg grefyddol enwadol, a byddai'n well gennym pe deellid bod hyn yn atodol i'r ddarpariaeth crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol. Yn yr ysgolion hyn, dylai rhieni gael yr hawl i dynnu eu plentyn yn ôl o'r agwedd atodol hon ar grefydd, gwerthoedd a moeseg, fel bod y plant yn cael addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg orfodol yn unig.

Er gwaethaf y materion anghyfartal, credwn fod yr ystyriaethau ymarferol yn golygu nad ydym yn cefnogi'r hawl i riant wneud cais am ddarparu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol os nad yw'r ysgol yn ei ddarparu fel arfer.

Rydym wedi ateb 'Ddim yn cytuno nac yn anghytuno' gan nad ydym o'r farn bod angen maes llafur cytunedig mwyach, fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i gwestiynau blaenorol. Cytunwn y dylai fod yn ofynnol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir â nodweddion crefyddol addysgu crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru a chanllawiau statudol os bydd rhiant/gofalwr yn gofyn iddynt wneud hynny ac na ddylai fod ganddynt ddisgresiwn i wrthod cais o'r fath.

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion hyn mewn perthynas â chrefydd, gwerthoedd a moeseg yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Mae pob ysgol yng Nghymru sydd â darpariaeth uwchradd sy'n addysgu addysg grefyddol enwadol yn rhai cyfrwng Saesneg, felly mae'n amhosibl dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn y cyfnod uwchradd sy'n cynnwys addysgu addysg grefyddol enwadol. Mae tuag 20% o ysgolion cynradd sydd â nodweddion crefyddol (42/207 ysgol) yn cynnig addysg cyfrwng Cymraeg rhannol neu lawn, gan olygu bod addysg grefyddol enwadol cyfrwng Cymraeg ar gael i gyfran fechan o'r boblogaeth yng Nghymru.

Gellid ystyried bod argaeledd cyfyngedig iawn addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgol â nodweddion crefyddol yn golygu bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg

ac, o ganlyniad, gallai rhai disgyblion golli allan ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Os nad oes gan rieni'r hawl i ddewis crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol, mae'n bosibl y byddai rhai rhieni'n dewis anfon eu plentyn i ysgol cyfrwng Saesneg â nodweddion crefyddol yn hytrach nag ysgol cyfrwng Cymraeg sydd heb nodweddion crefyddol.  Gallai cynnal arolwg o rieni ynghylch y mater hwn fod yn ddefnyddiol, i gael gwybod lefel y galw posibl am addysg cyfrwng Cymraeg sy'n cynnwys crefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol.

Gellid dadlau bod modd lliniaru hyn trwy roi'r hawl i rieni ofyn am grefydd, gwerthoedd a moeseg yn unol â daliadau ffydd benodol.  Fodd bynnag, rydym o'r farn na fyddai'n ymarferol i ysgolion fod yn trefnu darpariaethau crefydd, gwerthoedd a moeseg gwahanol i ddisgyblion gwahanol oherwydd y byddai hyn yn galw am adnoddau ychwanegol sylweddol.

**Cwestiwn 8** – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru:

i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Fel yr amlinellwyd yn ein hymateb i gwestiwn 7, cyfrwng iaith ysgolion â nodweddion crefyddol sy'n peri her i'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn hytrach na'r polisi arfaethedig ar grefydd, gwerthoedd a moeseg yn y Cwricwlwm i Gymru.

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi unrhyw bryderon nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Yng ngoleuni'r cynigion hyn, gallai fod yn ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru adolygu rôl CYSAGau a'r angen am feysydd llafur cytunedig lleol yn y dyfodol.

Gallai hyn fod yn gyfle i addasu CYSAGau fel eu bod yn cynorthwyo ysgolion â rhoi'r Cwricwlwm i Gymru a'r canllawiau statudol ar gyfer crefydd, gwerthoedd a moeseg ar waith, ac yna archwilio / monitro ansawdd darpariaeth ysgolion.